CAFFAEL SY'N GYFEILLGAR

I FUSNESAU BACH A CHANOLIG

pecyn cymorth GALLU GWNEUD 2

Ariannwyd gan

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

i2i - inform to involve
i2i - hysbysu i ymrwymo

CIH Cymru

integrate

united welsh

Newport City Homes

JobMatch
We'll find the right job for you

Merthyr Valleys Homes

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

PWYSIG: Dim ond cyngor cyffredinol a roir yn y tri adnodd i gyd sy'n ffurfio'r pecyn cymorth. Dylai darllenwyr geisio cyngor cyfreithiol cyn ei ddefnyddio.

Mae'r ddogfen hon yn seiliedig ar waith gwreiddiol a wnaethpwyd gan Richard Macfarlane (Richard@rmacfarlane.co.uk), gyda deunydd ac ymchwil cyfreithiol a ddarparwyd gan Mark Cook (mark.cook@anthonycollins.com) a Gayle Monk (gayle.monk@anthonycollins.com) o Anthony Collins Solicitors LLP. Gwnaethpwyd gwaith arolygu gan Community Consultants (www.communityconsultants.co.uk)

Cynnwys

Adran 1 – Cyflwyniad **t.4**

1.1 Y Pecyn Cymorth t.4
1.2 Sut i ddefnyddio Adnodd 2 t.4
1.3 Seiliau Rhesymegol ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i BBaChau t.5
1.4 Teipoleg o opsiynau, pwerau, blaenoriaethau a dewisiadau Caffael sy'n Gyfeillgar i BBaChau t.7
1.5 Ymagwedd Gam wrth Gam t.8
1.6 Y Llwybr i Gaffael sy'n Gyfeillgar i BBaChau t.12

Adran 2 – Y Sail Polisi a Chyfreithiol ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i BBaChau **t.14**

2.1 Fframweithiau Polisi a Chyfreithiol i Gyrff Cyhoeddus y DU t.15
2.1.1 Datblygu Cynaliadwy t.15
2.1.2 Llywodraeth Cynulliad Cymru t.15
2.1.3 Polisi ar Gyfleoedd i BBaChau t.16
2.1.4 Gwerth am Arian, Gwerth Gorau a Fforddiadwyedd t.16
2.1.5 Awdurdodau Lleol t.17
2.2 Fframwaith Polisi a Chyfreithiol yr UE t.18
2.2.1 Cyfraith achosion y DU a'r UE t.18

Adran 3 – Teipoleg o Ddewisiadau Caffael sy'n Gyfeillgar i BBaChau **t.20**

3.1 Gweithgareddau "Beth i'w Brynu" t.20
3.1.1 Trafod â'r Farchnad ac Ymgysylltu â'r Gymuned t.21
3.1.2 Rheoli Disgwyliadau Busnes Lleol t.21
3.1.3 Contract Rheoli Cadwyn Cyflenwi t.22
3.1.4 Cynnwys Gofynion Cadwyn Gyflenwi yn y Fanyleb t.24
3.1.5 Contractau Llafur yn unig a Chyflenwi yn unig
3.2 Gweithgareddau "Sut i Brynu" t.25
3.2.1 Cynllunio Contractau fel bod BBaChau'n gallu cynnig t.25
3.2.2 Neilltuo contractau i Fusnesau a Gynorthwyir t.25
3.2.3 Contractau Neilltir: Lotiau 20% t.26
3.2.4 Lotiau t.26
3.2.5 Cytundebau Fframwaith t.26
3.2.6 Newid yr Holiadur Cyn-gymhwyso t.28
3.3 Rhoi Gwybodaeth i Gynigyddion Posibl t.28
3.3.1 Cydnabod yn Gynnar t.28
3.3.2 Canllaw Caffael neu "Sut i Gontractio" t.28
3.3.3 Hysbysebu Lleol t.29
3.3.4 Digwyddiadau "Cwrdd â'r Prynwr" t.29
3.3.5 GwerthwchiGymru t.29
3.3.6 Cronfeydd data t.30
3.4 Datblygu Cyflenwyr t.30
3.4.1 Y Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr t.30
3.4.2 Adeiladu Cymru t.31
3.4.3 Ffurfio Consortiwm t.31

Adran 1: Cyflwyniad

1.1 Pecyn Cymorth Gallu Gwneud 2 – "Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig"

Mae'r pecyn cymorth yn dilyn ***Pecyn Cymorth Gallu Gwneud: Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu i landlordiaid cymdeithasol*** yn uniongyrchol, a dylid ei ddefnyddio mewn partneriaeth â'r ddogfen wreiddiol. Pan fydd cysylltiadau cryf, cyfeirir y darllenwyr yn uniongyrchol at y pecyn cymorth cyntaf, sydd wedi'i ddiweddaru i gynnwys unrhyw ddatblygiadau cyfreithiol a pholisi newydd yn y maes hwn. Mae'r Pecyn Cymorth hwn yn cynnwys 3 adnodd cysylltiedig:

Adnodd 1 – Mae'r canllaw cyflwyniadol hwn yn rhoi gwybodaeth allweddol am sut y gall sefydliadau sicrhau bod eu dulliau caffael yn gyfeillgar i fusnesau bach a chanolig (BBaChau), a sut y gellir gwneud y mwyaf o gyfleoedd i BBaChau.

Adnodd 2 – canllaw cynhwysfawr sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion cyfreithiol a pholisi, ac yn rhoi gwybod i brynwyr beth i'w brynu a sut i'w brynu, a sut i gefnogi BBaChau. Mae'r adnodd hwn wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â'r Pecyn Cymorth Gallu Gwneud cyntaf ac mae ar gael i'w lwytho i lawr ar wefannau **i2i** a Gwerth Cymru mewn fformat PDF.

Adnodd 3 – cyfres o ddeunyddiau enghreifftiol a chyfarwyddyd ymarferol ar sut i brynu, i'w llwytho i lawr a'u haddasu o wefannau **i2i** a Gwerth Cymru mewn fformat PDF.

Sut i ddefnyddio Pecyn Cymorth Gallu Gwneud 2

Cynhyrchwyd y pecyn cymorth hwn ar y cyd gan **i2i** a **Gwerth Cymru** fel y cam nesaf i gynnig cyfarwyddyd ymarferol a chlir i brynwyr sector cyhoeddus a landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru ar wneud y mwyaf o gyfleoedd cadwyn gyflenwi drwy eu contractau. Ei nod yw helpu defnyddwyr drwy roi gwybodaeth a chyfarwyddyd am:

- gamau defnyddiol y gallant eu cymryd;
- gofynion cyfreithiol a pholisi a phrosesau priodol;
- ffynonellau cymorth ac enghreifftiau o arfer perthnasol; a
- chymalau enghreifftiol y gellir eu mabwysiadu i'w defnyddio fesul achos

1.2 Sut i ddefnyddio adnodd 2

Bydd yr arfau a'r dewisiadau a osodir allan yn y ddogfen hon, yn ogystal ag adnodd 3, yn galluogi defnyddwyr i ddeall a chynnwys prosesau caffael sy'n gyfeillgar i BBaChau yn effeithiol ym musnes eu sefydliad. Yn ogystal â sicrhau'r cyfleoedd caffael mwyaf posibl i BBaChau, bydd hyn yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy'r sefydliad. Mae'r arfau'n hyblyg, a gellir eu defnyddio mewn ffyrdd;

- y gellir eu haddasu i amgylchiadau penodol a dewisiadau'r swyddogion dan sylw;
- sy'n cyd-fynd â phrosesau tendro cystadleuol a dyraniad marchnad adnoddau;
- sy'n cyd-fynd â'r fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu gweithgareddau caffael y defnyddwyr, ac yn cyd-fynd ag arfer caffael gorau.

Mae Adnodd 2 yn cynnig **canllaw cynhwysfawr,** sy'n dilyn y seiliau rhesymegol polisi a gyflwynwyd yn adnodd 1, gan roi sylw i gefndir polisi a chyfreithiol camau caffael sy'n gyfeillgar i BBaChau y gall prynwyr eu cymryd. Mae'n parhau drwy gynnig ac egluro amrywiaeth o ddewisiadau caffael a chyn-gaffael yn ogystal â gweithgareddau cefnogi y gellir eu cynnal i sicrhau nad yw unrhyw broses gaffael yn rhwystro BBaChau lleol.

Fe'i darllenir orau ar y cyd ag adnodd 3, sy'n cynnig amrywiaeth o ddeunyddiau enghreifftiol, ac ymagwedd gam wrth gam at gaffael sy'n gyfeillgar i BBaChau yn y sector cyhoeddus o'r cyfnod mabwysiadu polisi i ddyfarnu a monitro contract sy'n cynnwys protocolau cyfeillgar i BBaChau.

1.3 Seiliau rhesymegol ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i BBaChau

"Mae Agor Drysau: Y Siarter, a lansiwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006 yn nodi egwyddorion yn glir i'r sector cyhoeddus a'r sector BBaCh gyda'r nod o hwyluso ymgysylltiad. Nod y Siarter yw gosod lefel ofynnol o arfer da i'r sector cyhoeddus a'r amrywiaeth lawn o BBaChau *; a helpu i greu maes cystadlu gwastad i bob cyflenwr sy'n dymuno tendro am gontractau sector cyhoeddus, gan agor cyfleoedd cyflenwi felly i BBaChau, a hyrwyddo economi iach a chynhwysol yng Nghymru. Mae pob sefydliad sector cyhoeddus mawr ledled Cymru wedi cytuno i egwyddorion y Siarter."[1]

**Diwygiwyd y Siarter ym mis Mai 2008 i gyfeirio'n benodol at BBaChau.*

> ***"Fel cymdeithas tai gydfuddiannol gymunedol, mae tenantiaid a chymdogaethau wrth wraidd yr hyn a wnawn. Mae BBaChau yn rhan o'r cymunedau hyn, yn gweithio mewn cymdogaethau ac yn cyflogi pobl leol"***
>
> Greg Montgomery. Cyfarwyddwr Buddsoddi ac Adfywio. Cartrefi RCT.

Er gwaetha'r cydnabyddiaethau hyn, mewn llenyddiaeth 'cymuned gaffael' efallai mai prin y cyfeirir at bwysigrwydd BBaChau yn yr economi leol, os o gwbl. Yn rhan o'r ymchwil i'r pecyn cymorth hwn, cynhaliwyd arolwg o ddarparwyr tai cymdeithasol ac mae'n nodi'r pwysigrwydd a roir i gomisiynu gwaith gan BBaChau yn gyffredinol – ag ychydig o duedd tuag at gwmnïau llai – a chwmnïau sy'n cyflogi pobl leol yn arbennig.

Tabl 1 Y pwysigrwydd a roir i ddarparu cyfleoedd gwaith i fusnesau o faint amrywiol gan landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru [2]

	Sgôr gymedrig
Micro-fentrau (hyd at 10 o gyflogeion)	4.1
Cwmnïau bach (11-49 o gyflogeion)	4.1
Cwmnïau canolig (50-250 o gyflogeion)	3.8
Busnesau sydd newydd ddechrau	3.4

Sylwer: Sgôr gymedrig yn seiliedig ar werth o 1 ar gyfer dim pwysigrwydd i 5 ar gyfer pwysig iawn.

1 Agor Drysau: Y Siarter ar gyfer Caffael sy'n gyfeillgar i fusnesau bach a chanolig, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008

2 Community Consultants. Arolwg o 22 landlord cymdeithasol Cymru. Gwaith heb ei gyhoeddi i i2i/CIH Cymru. 2009.

Tabl 2 Rhesymau landlordiaid cymdeithasol Cymru dros gefnogi BBaChau[3]

	Nifer
Helpu i gynyddu cystadleuaeth	8
Mae'r maint hwn yn fwy ymatebol i'n hanghenion	11
Haws i reoli'r maint hwn o gwmni	7
Helpu i gefnogi economi leol a chreu swyddi lleol	17
Mae BBaChau'n cyflogi pobl leol sy'n deall anghenion ein tenantiaid yn well	18
Dim o'r rhain	2
Cyfanswm	22

Yn ogystal â'r arolwg uchod gyda phrynwyr sector cyhoeddus, gwnaethpwyd gwaith ymchwil gyda chwmnïau adeiladu, er mwyn mesur lefel eu cefnogaeth a'u profiad o weithio gyda'r gadwyn gyflenwi leol. Cyfwelwyd ag 11 o gwmnïau adeiladu, y mae gan bob un ohonynt gontractau cyfredol gyda landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r ymatebion yn ffurfio data ansoddol o ran nifer y materion ynghylch y gadwyn gyflenwi.

Cwestiwn 1: Barn am sut i gynnwys BBaChau yn fwy mewn contractau

- Gwneud y gofyniad i ddefnyddio BBaChau neu gwmnïau lleol yn amod yn y dogfennau tendro
- Cynnwys defnyddio cwmnïau lleol fel dangosydd perfformiad allweddol
- Meithrin gallu cwmnïau lleol i gyflenwi contractau
- Meithrin cysylltiadau â'r gadwyn gyflenwi drwy ysgolion, colegau, y Ganolfan Byd Gwaith, digwyddiadau cwrdd â'r prynwr

Cwestiwn 2: Prif broblemau wrth ddefnyddio cyflenwyr lleol

- Gallu cwmnïau lleol i gyflenwi o ran:
- Iechyd a diogelwch
- Rheoli ariannol
- Sicrhau ansawdd
- Sgiliau'r gweithlu
- Pris/y gallu i gystadlu
- Nid yw cynllun Paru Swyddi De Cymru ar gael ledled Cymru

Cwestiwn 3: A ddylid cynnwys defnyddio cwmnïau lleol yn y broses gaffael?

Credai 9 ymatebwr y dylid ei gynnwys, a 2 na ddylid ei gynnwys.

- Dywedodd un y dylai fod yn rhan o ddogfennaeth y cynnig, ac yn ddangosydd perfformiad allweddol.

3 Ibid

Cwestiwn 4: Camau a gymerir i nodi cyflenwyr ac isgontractwyr "lleol" sy'n BBaChau ac ymgysylltu â hwy

- Yn gyffredinol, roedd cwmnïau'n dweud eu bod yn cadw cronfa ddata o gyflenwyr ac isgontractwyr lleol.
- Cynnal seminarau a digwyddiadau cwrdd â'r prynwr i gwmnïau lleol am wybodaeth gontract gychwynnol, a gwneud hynny un ac un â chwmnïau unigol wedyn.

Cwestiwn 5: Ffyrdd mwyaf effeithiol o fesur cyfleoedd BBaChau

- Dangosyddion perfformiad allweddol
- Canran o gontract a roir i BBaChau
- Faint a wariodd y contractwr ar BBaChau
- Gwylio sut y tyfodd ac y datblygodd eu hisgontractwyr, fel y gellid eu defnyddio mewn contractau yn y dyfodol

1.4 Teipoleg o opsiynau, pwerau, blaenoriaethau a dewisiadau Caffael sy'n Gyfeillgar i BBaChau

O'r Cyflwyniad hwn, gellir gweld bod gan ddarparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru amrywiaeth sylweddol o ddewisiadau er mwyn caffael mewn modd sy'n gyfeillgar i BBaChau. Archwilir y dewisiadau hyn yn fanylach yng ngweddill Pecyn Cymorth Gallu Gwneud. Felly sut y dylai landlordiaid cymdeithasol benderfynu beth i'w wneud a sut i gyflawni eu nodau orau? Mae angen amrywiaeth o ystyriaethau gan gynnwys:

- Nodi **nodau'r** prynwr o bwerau, polisïau a gweithdrefnau ariannol presennol, neu efallai gwella'r rhain i fynegi'r meddylfryd newydd yn y gymdeithas yn well;
- Dewis **targedau:** pa fusnesau bach a chanolig y gobeithir y byddant yn elwa ac ymhle maen nhw?
- Pa **weithgarwch cefnogi cyflenwyr** a allai gynyddu ymwybyddiaeth am gyfleoedd a gallu BBaChau i gystadlu'n llwyddiannus am y rhain?
- Archwilio sut y gall defnyddio **adnoddau allanol** fel y Rhaglen Datblygu Cyflenwyr gefnogi BBaChau i ennill contractau?
- Sut y gellir **llunio** contractau i sicrhau y gall BBaChau roi cynnig arnynt?
- **A ellir estyn y fanyleb** i gynnwys gofynion sy'n adlewyrchu nodau'r prynwr yn well e.e. gofynion 'lluosydd economaidd' neu 'ddatblygu cadwyn gyflenwi'?
- Sut y dylid **newid y broses gaffael** i adlewyrchu unrhyw nodau sy'n gyfeillgar i BBaChau ar gyfer caffael e.e. yn y cyfnodau holiadur cyn-gymhwyso, hysbysiad contract, manyleb a dyfarnu?
- Sut bydd unrhyw ofynion sy'n gyfeillgar i BBaChau yn cael eu **mesur a'u monitro?**
- **Rheoli Contractau:** pwy fydd yn cydlynu ac yn monitro cynnydd y gwasanaethau cefnogi a'r agenda cyfeillgar i BBaChau?

CAM UN: Mabwysiadu polisïau clir

Gofynion

- dylid cynnwys yr ymrwymiad i gaffael sy'n gyfeillgar i BBaChau yn y Strategaeth Gaffael/ Gorfforaethol/Gymunedol;
- nodi trothwyon, gwerthoedd neu fathau o gontract lle bydd y polisi'n berthnasol;
- cynnwys unrhyw ymrwymiad i ardal neu fathau arbennig o gwmni; ond
- bod yn amhenodol fel y gall y polisi oroesi newidiadau blaenoriaeth tymor byr

CAM DAU: Datblygu achos busnes

Gofynion

- ystyried y pwerau a'r polisïau a allai ganiatáu cynnwys datblygiad economaidd a dargedir neu ddatblygiad cadwyn gyflenwi yn rhan o destun y contract;
- penderfynu a yw'r rhain am gael eu cynnwys, ac os felly ystyried sut y bydd y gofynion yn cael eu diffinio, eu mesur a'u monitro;
- cynnal 'ymgynghoriadau marchnad' i asesu'r ymateb i'r gofynion hyn;
- ystyried trefniadau i gaffael drwy gontractau llai sy'n fwy hygyrch i BBaChau;
- defnyddio GwerthwchiGymru yn fodd o hysbysebu pob contract bach;
- ystyried sut orau i ddefnyddio'r adnoddau a ddarperir gan y Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr ac Adeiladu Cymru.

CAM TRI: Paratoi hysbysiad contract OJEU

Gofynion

- mae'n rhaid sôn am ddefnyddio ystyriaethau cymdeithasol gan gynnwys camau i gefnogi BBaChau yn yr Hysbysiadau Contract;
- mae'n rhaid cynnwys y bwriad i benodi nifer o gontractwyr i Fframwaith yn yr Hysbysiad;
- mae'n rhaid sôn am y bwriad i ddyfarnu'r gwaith drwy nifer o 'lotiau' yn yr Hysbysiad.

Testun Enghreifftiol

Cyfleoedd Cadwyn Gyflenwi a Hyfforddiant

Mae [……..] (nodwch enw) wedi ymrwymo i gyflawni lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i'w breswylwyr a gweithredu'r Strategaeth (Gymunedol) er mwyn sicrhau gwell ansawdd bywyd i bawb, heddiw ac i genedlaethau i ddod. I gyflawni hyn, mae'n ymrwymo i'r camau canlynol i'r graddau llawnaf posibl yn ôl y fframweithiau cyfreithiol a pholisi perthnasol a'r cyllid sydd ar gael:

- wrth ddewis y strategaeth ar gyfer pob achos o gaffael, ystyried pa gyfleoedd recriwtio a hyfforddi, cyfle cyfartal a BBaCh y gellid eu cael o bob contract gwaith yr amcangyfrifir ei fod yn werth mwy na [£…m] a phob contract gwasanaethau yr amcangyfrifir ei fod yn werth mwy na [£……..]
- cynnwys gofynion hyfforddiant, cyfle cyfartal a recriwtio, a chyfleoedd i BBaChau yn ei ofynion gwasanaeth, pan fydd yn ystyried bod hyn yn briodol;
- cynnwys materion cymdeithasol ac amgylcheddol eraill yn ei ofynion gwasanaeth, lle bydd yn ystyried bod hyn yn briodol; a
- defnyddio'r gofynion hyn ym mhob cam o'r broses dewis a dyfarnu contract, ac fel amodau contract.

Testun Enghreifftiol

Wrth baratoi achos busnes, mae'n rhaid i awdurdod contractio ystyried llawer o faterion, gan gynnwys:

- cadarnhau bod ganddo'r pwerau a'r polisïau i gynnal y caffael, gan gynnwys y materion cymdeithasol dymunol;
- sicrhau y gwneir darpariaethau ariannol ar gyfer y prosiect cyfan, gan gynnwys gofynion sy'n gyfeillgar i BBaChau a chanlyniadau cymdeithasol eraill;
- sicrhau y gellir meintoli a mesur ei holl amcanion BBaCh a chymdeithasol eraill, a fydd yn helpu i werthuso i ba raddau maent yn rhoi gwerth am arian;
- nodi'r pwysiad i'w roi i ddarparu cyfleoedd BBaCh yn y broses gaffael a pha strategaeth gaffael fydd yn cyflawni hyn orau; a
- nodi pa gyfleoedd BBaCh y gellid eu darparu yn y gadwyn gyflenwi a sut y cyflawnir hyn orau (e.e. drwy'r amodau manyleb a chontract), gan gynnwys argaeledd rhestri cadwyn gyflenwi ac adnoddau datblygu cyflenwyr a threfniadau monitro a hwyluso.

Testun Enghreifftiol

"O dan y [caffael/prosiect] hwn mae gofyn i'r [contractwr/datblygwr] gyfranogi'n weithgar yn adfywio economaidd a chymdeithasol yr ardal ac o amgylch man cyflenwi'r [caffael/prosiect]. Yn unol â hynny, gallai amodau perfformiad contract gysylltu'n arbennig ag ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol."

CAM PEDWAR: Holiadur cyn-gymhwyso

Gofynion

- ystyried defnyddio templedi HCG safonol ar gyfer materion ariannol a phrofiad blaenorol er mwyn lleihau'r cyfraniad sydd ei angen gan gynigyddion posibl;
- archwilio'n feirniadol yr angen am drothwyon trosiant ac aelodaeth sefydliadau masnach fel tystiolaeth o allu: edrych am dystiolaeth amgen;
- cynnwys cwestiwn i sicrhau gallu technegol a rheolaethol i gyflenwi ymagwedd sy'n gyfeillgar i BBaChau

CAM PUMP: Llunio'r fanyleb neu'r gwahoddiad i dendro

Gofynion

- Mae angen cynnwys gofynion manwl sy'n gyfeillgar i BBaChau neu ofynion effaith economaidd leol yn y cam hwn: beth sy'n briodol ac yn gyraeddadwy
- Cymalau drafft sy'n ddiamwys, yn seiliedig ar ganlyniadau ac yn darparu 'maes cystadlu gwastad' i gynigyddion o unrhyw le yn Ewrop;
- Cyfeirio at GwerthwchiGymru neu gronfeydd data lleol eraill fel ffynhonnell o BBaChau a dargedir sydd ar gael i unrhyw gontractwr.

CAM CHWECH: Datblygu proses ddyfarnu

Gofynion

- dylid nodi'n gynnar unrhyw bwysiad i'w roi i'r gofynion craidd sy'n gyfeillgar i BBaChau a'i gynnwys yn Hysbysiad Contract OJEU;
- gofyn i gynigyddion gwblhau datganiad dull profforma mewn perthynas â'u gweithgarwch sy'n gyfeillgar i BBaChau: os yw'n ofyniad craidd, gellir sgorio a defnyddio'r datganiad dull wrth ddyfarnu'r contract;
- os nad yw'r gweithgareddau sy'n gyfeillgar i BBaChau yn ofynion craidd ni ddylent ddylanwadu ar ddyfarnu'r contract ond gellir eu cynnwys fel amodau contract.

CAM SAITH: Gweithredu amodau contract a monitro canlyniadau

Gofynion

- Dylid datblygu amodau contract penodol sy'n adlewyrchu gofynion y fanyleb neu'r Gwahoddiad i Dendro fesul achos.
- Sefydlu gweithdrefnau i fonitro'r gofynion sy'n gyfeillgar i BBaChau a monitro eu cynnydd: bydd y rhain yn bwysicaf yn wythnosau a misoedd cyntaf y contract.

Testun Enghreifftiol

Cyfleoedd Cadwyn Gyflenwi a Dargedir

A yw eich cwmni'n barod i weithio gyda'r awdurdod sy'n contractio ar *unrhyw rai neu'r cyfan o'r isod? Eglurwch sut y byddech yn gwneud hyn.*

- Nodi 'cyflenwyr ychwanegol sy'n BBaChau' nad ydych wedi'u defnyddio o'r blaen ac sy'n gweithio yn yr ardaloedd lle rydych chi'n gweithio, ac o'u cwmpas;
- Defnyddio GwerthwchiGymru a rhestri cadwyn gyflenwi eraill a gweithio gyda Rhaglenni Datblygu Cyflenwyr;
- Meithrin a chefnogi'r cyflenwyr ychwanegol hyn sy'n BBaChau fel y gallant fodloni eich anghenion yn well;
- Gweithredu arfer gorau mewn telerau talu a thelerau eraill mewn perthynas â'ch cadwyn gyflenwi BBaCh.

Sut y byddech yn bwriadu cymryd rhan yn unrhyw un o'r gweithgareddau hyn, neu a oes gennych unrhyw enghreifftiau o gymryd rhan ynddynt eisoes?

Testun Enghreifftiol

Er bydd y manylion yn amrywio o'r naill gontract i'r llall, mae nifer o elfennau cyffredin sy'n cael eu cynnwys mewn manylebau sy'n gyfeillgar i BBaChau, ac yn eu plith:

- rhyw gyfeirio at y seiliau polisi neu gyfreithiol i'r gofynion;
- dangosyddion perfformiad mesuradwy naill ai yn y fanyleb neu mewn atodiad, mewn perthynas â'r canlyniadau gofynnol, a/neu broses y mae'n rhaid ei dilyn i nodi 'BBaChau targed';
- gofynion monitro ac adolygu perfformiad; ac
- ymwadiad i amddiffyn y cleient rhag 'ceisiadau' mewn perthynas ag unrhyw ymyriadau sy'n gyfeillgar i BBaChau a wnaiff.

Testun Enghreifftiol

- Mae datganiad dull profforma sy'n gyfeillgar i BBaChau wedi'i gynnwys yn Adnodd 3.
- Dylid datblygu fframwaith sgorio i sicrhau gwerthusiad cadarn a theg o'r datganiadau dull sy'n gyfeillgar i BBaChau.

Testun Enghreifftiol

Gellir defnyddio'r cymalau enghreifftiol yn Adnodd 3 fel man cychwyn i bob achos o gaffael, gan gynnwys y rheini sy'n cael sylw gan reolau'r UE. Cânt eu drafftio ar y sail y bydd y contractwr wedi cyflenwi cynllun cyflenwi gwasanaeth neu ddatganiad dull sy'n foddhaol i'r cleient ynghylch sut y bydd yn gweithredu gweithgareddau sy'n gyfeillgar i BBaChau.

Adran 1.6 Y Llwybr i gaffael sy'n gyfeillgar i BBaChau

rhestr wirio

camau i'w cymryd

NODAU	TARGEDAU	CYMORTH I GYFLENWYR	COSTAU	MAINT CONTRACT
Gwirio Cyfansoddiad a 'Phwerau'	Microfentrau	Cyhoeddi Canllaw Caffael	Nodi cost ymagwedd sy'n gyfeillgar i BBaChau	Contractau mawr a rhwymedigaethau cadwyn gyflenwi
Gwirio a gwella polisïau cymdeithasol	Microgwmnïau a Chwmnïau bach	Digwyddiadau cwrdd â'r prynwr	Sicrhau bod y gyllideb yn ddigon i dalu am yr ymagwedd	Contractau fframwaith â nifer bach neu nifer cyfnewidiol yn cael ei neilltuo
Gwirio polisi datblygu cynaliadwy	BBaChau	Hysbysebu cyfleoedd	Gwneud camau craidd sy'n gyfeillgar i BBaChau yn rhan o'r penderfyniad gwerth gorau neu werth am arian	Hysbysebu contract i'w osod mewn 'lotiau' llai
Gwirio a diwygio Rheolau Sefydlog	Cyflenwyr newydd	Defnyddio cronfa ddata BBaChau e.e. GwerthwchiGymru	Nodi adnoddau allanol i gefnogi gwaith BBaChau	Osgoi cydgasglu: darparu contractau bach
Gwirio a gwella polisi caffael	Cwmnïau ar GwerthwchiGymru neu gofrestri eraill	Meithrin gallu wedi'i dargedu	Profi gofynion BBaChau ar y farchnad	Gosod contract rheoli cadwyn gyflenwi
Sicrhau bod cynghorwyr yn ymwybodol o nodau cymdeithasol/ economaidd	Busnesau sydd newydd ddechrau	Annog BBaChau i gofrestru ar gronfeydd data		Prynu llafur a deunyddiau ar wahân i ddarparu contractau bach
Ystyried arfer caffael da	Mentrau cymdeithasol a chwmnïau a gynorthwyir	Cefnogi consortia i ffurfio		

MANYLEB	PROSES GAFFAEL	ARWAIN	MONITRO
Canran darged o werth pris y tendr i'w darparu gan BBaChau a dargedir	Caffael drwy borth contractau e.e. PrynwchiGymru/ GwerthwchiGymru	Ystyried materion monitro yng nghyfnod y fanyleb	Mae'n rhaid i weithgarwch cadwyn gyflenwi gael 'hyrwyddwr'
Canran darged o werth y gwaith i'w darparu gan BBaChau a dargedir	Hysbysiad OJEU gyda gofynion cymdeithasol a phwysiad penodol	Mabwysiadu mesurau priodol: ychydig ond wedi'u targedu	Nodi adnoddau ac arbenigedd allanol e.e. Adeiladu Cymru
Gosod gwerth targed er budd economi leol darged	Holiadur Cyn-gymhwyso – wedi'i symleiddio ac yn cynnwys cwestiynau am waith datblygu cadwyn gyflenwi	Dewis mesurau meintiol dros rai ansoddol	Darparu cymorth a gwybodaeth 'arbenigol' i dîm caffael
Rhoi gwybod am gyfleoedd cadwyn gyflenwi i gofrestr a enwir	Hysbysebu cyfle a digwyddiad cwrdd â'r prynwr	Nodi cyfnodau a fformatau adrodd	Adrodd am ganlyniadau i fforymau busnes lleol
Contractwr i hysbysebu cyfleoedd cadwyn gyflenwi	Pob cynigydd yn cael at gadwyn gyflenwi a dargedir	Monitro cynnydd ac ymateb i ganlyniadau	Rhannu canlyniadau a gwersi a ddysgwyd
Contractwr i gynnal digwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr' a mentora cyflenwyr newydd	Cael a gwerthuso Datganiad Dull gyda'r tendr	Ystyried sut i wirio adroddiadau	
		Nid yw monitro gormodol yn rhoi gwerth da am arian	

Adran 2: Y Sail Polisi a Chyfreithiol ar gyfer Caffael Cyfeillgar i BBaChau

Mae'r adran hon yn rhoi golwg cyffredinol ar y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu defnyddio polisïau sy'n gyfeillgar i BBaChau. Os hoffech ddarllen canllaw cynhwysfawr sy'n ymdrin â sail polisi a chyfreithiol datblygu cadwyn cyflenwi o BBaChau, ewch i ***Becyn Cymorth Gallu Gwneud – Recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu, adnodd 2.*** Mae gwneud unrhyw weithgarwch caffael i hyrwyddo cyfleoedd BBaCh yn seiliedig i raddau helaeth, yn yr un modd â RHT, ar bwerau Lles Awdurdod Lleol neu nodau ac amcanion Corfforaethol LCC, ac felly gellir cael at y sail hon yn gyflym drwy ddilyn y ddolen hon a mynd at adrannau 2 a 3. Mae'r wybodaeth hon wedi'i diweddaru yn y pecyn cymorth gwreiddiol i adlewyrchu'r datblygiadau cyfreithiol a pholisi ers mis Mai 2008. **http://www.whq.org.uk/docs/i2i/english/aboutDocE22.pdf**

Hefyd, nid oes unrhyw gyngor na chanllawiau caffael cyffredinol ar gyfer proffesiynau caffael yn perthyn i gylch gwaith y ddogfen hon a chynghorir darllenwyr i ddarllen y Cynlluniwr Siwrnai Caffael a ddatblygwyd gan Werth Cymru sydd yn;

> ***"ceisio hyrwyddo ymagwedd strwythuredig, gam wrth gam ac annog arfer gorau, cyson i gaffael drwy sector cyhoeddus cyfan Cymru."***

Gellir cyrraedd y cymorth caffael hwn drwy ddilyn y ddolen hon; **http://www.prynwchigymru.co.uk/PRP**

Mae'n bwysig cydnabod y bydd fframweithiau cyfreithiol yn effeithio'n wahanol ar 'beth i'w brynu' (h.y. yr hyn sy'n cael ei gynnwys yn rhan o destun y contract: 'gofyniad craidd') a phenderfynu 'sut i brynu' (e.e. drwy gyfres o gontractau llai, neu gontract fframwaith, neu mewn 'lotiau').

Dylai gweithwyr caffael proffesiynol ystyried gweithgareddau "Beth i'w brynu" yn rhan o'r broses cyn caffael, lle bydd strategaethau a phenderfyniadau corfforaethol o ganlyniad uniongyrchol i ethos sefydliad. Adlewyrchir hyn yn adran polisi'r pecynnau cymorth.

Dylai gweithwyr caffael proffesiynol ystyried gweithgareddau "Sut i brynu" a'r wybodaeth a'r cymorth a roir i gynigyddion yn rhan o'u proses gaffael, ac felly, mae'n rhaid ystyried goblygiadau cyfreithiol y penderfyniadau hyn. **Eto, mae'r sail gyfreithiol ar gyfer y penderfyniadau caffael a wneir ar gael yn y pecyn cymorth gwreiddiol, ond rydym wedi cynnwys cyfarwyddyd a chyfraith achosion newydd sy'n benodol i BBaChau yn yr adran hon.**

Bydd y fframweithiau polisi a chyfreithiol yn amrywio rhwng gwahanol gyrff cyhoeddus, ond ymhlith y materion polisi allweddol sy'n gysylltiedig â mater caffael sy'n gyfeillgar i BBaChau mae:

- Egwyddorion datblygu cynaliadwy;
- Y cyfarwyddyd a'r arfer gorau sy'n cael eu cynnwys yn y Cynlluniwr Siwrnai Caffael.

4 Cynlluniwr Siwrnai Caffael, Llywodraeth Cynulliad Cymru a lansiwyd 2 Hydref 2009

2.1 Fframweithiau Polisi a Chyfreithiol i Gyrff Cyhoeddus y DU

2.1.1 Datblygu Cynaliadwy

Adlewyrchir yr amcan hwn ym mholisi Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned (Mai 2009) LlCC sy'n disgrifio datblygu cynaliadwy yng Nghymru fel:

> *[a] gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol:*
>
> - *Mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal; ac*
> - *Mewn ffyrdd sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynau...* [5]
>
> Mae'r ddogfen yn disgrifio datblygu cynaliadwy – gan gynnwys yr elfennau cyfiawnder cymdeithasol – yn *egwyddor drefnu ganolog Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector cyhoeddus yng Nghymru.*[6]

Mae'r strategaeth hefyd yn ymrwymo *"...y caiff busnesau a sefydliadau'r trydydd sector ledled Cymru y cyfle i gystadlu am gontractau'r sector cyhoeddus..."*[7]

Detholiad o Strategaeth Datblygu Cynaliadwy Cyngor Sir Powys 2008/2011

8.3. Gall y Cyngor helpu i gefnogi'r economi leol drwy roi'r cyfle i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaChau) a mentrau cymdeithasol dendro am gontractau, drwy roi cyfarwyddyd a phecynnu contractau'n briodol. Gallwn hefyd annog ein contractwyr i gyflogi a hyfforddi pobl leol pan fyddant yn gweithio i ni. Golyga'r rhain y bydd angen mân newidiadau i'r ffordd y gweithiwn, ond gallai pobl Powys elwa'n sylweddol.

2.1.2 Llywodraeth Cynulliad Cymru

O dan adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2006, caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw beth yr ystyriant ei fod yn briodol i hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol Cymru. Gellir arfer y pŵer hwn mewn perthynas â Chymru gyfan neu unrhyw ran ohoni, neu er budd Cymru gyfan neu unrhyw ran ohoni, neu'r holl bobl yng Nghymru neu unrhyw un yng Nghymru.

Mae **Siarter Agor Drysau**, a lansiwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006 ac a ddiweddarwyd yn 2008, yn nodi egwyddorion yn glir i'r sector cyhoeddus a'r sector BBaChau gyda'r nod o hwyluso ymgysylltiad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Peidio â thybio bod cyflenwyr mwy bob amser yn cynnig gwell gwerth am arian;
- Sicrhau bod ein holl brosesau'n creu maes cystadlu gwastad i BBaChau;
- Defnyddio meini prawf gwerth am arian bras i wneud penderfyniadau;
- Defnyddio meini prawf datblygu cynaliadwy wrth bennu gwerth am arian;
- Pecynnu contractau mawr yn elfennau ar wahân neu ddefnyddio 'lotiau' rhanbarthol os yw hynny'n briodol, i sicrhau bod BBaChau'n cael eu cynnwys yn y tendro.[9]

5 LlCC. Cymru'n Un : Cenedl Un Blaned. Mai 2009. Pennod Un.

6 Ibid - Rhagair y Gweinidog.

7 Ibid tudalen 57

8 Ibid tudalen 57

2.1.3 Polisi ar Gyfleoedd i BBaChau

Mae ***Siarter Agor Drysau***, a lansiwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006, yn nodi egwyddorion yn glir i'r sector cyhoeddus a'r sector BBaChau yng Nghymru a'i nod yw hwyluso ymgysylltiad gan bawb. Roedd y Siarter yn nodi lefelau gofynnol o arfer da i'r sector cyhoeddus a'r amrywiaeth lawn o BBaChau* yng Nghymru. Diben hyn yn y pen draw yw creu maes cystadlu gwastad i bob cyflenwr sy'n dymuno tendro am gontractau sector cyhoeddus, gan felly agor cyfleoedd contract i BBaChau, yn ogystal â hyrwyddo economi iach a chynhwysol yng Nghymru. Mae pob sefydliad sector cyhoeddus mawr ledled Cymru wedi cytuno i egwyddorion y Siarter

Hefyd, mae'r Siarter yn cynnwys ymrwymiad gan awdurdodau contractio sef y byddant yn 'pecynnu contractau mawr yn elfennau ar wahân neu'n defnyddio lotiau rhanbarthol os bydd hynny'n briodol, er mwyn sicrhau nad yw busnesau bach a chanolig yn cael eu rhwystro rhag tendro'. Mae'r Siarter hefyd yn ymrwymo i 'leihau ar y gwaith gweinyddol sydd ei angen i dendro' a 'symud tuag at ymagwedd gyson i Gymru gyfan o ran dogfennaeth gyn-gymhwyso a chontractau safonol'.

At hynny, mae'r Siarter yn cynnwys ymrwymiadau i roi cyfle i gyflenwyr sy'n BBaChau drafod caffael â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn deall y gofynion deddfwriaethol, yn ogystal â rhoi adborth ar brosesau a gweithdrefnau'r Llywodraeth er mwyn gweithio mewn partneriaeth i greu atebion arloesol.

**Diwygiwyd y Siarter ym mis Mai 2008 er mwyn cyfeirio'n benodol at BBaChau yn eu cyd-destun ehangach – at ddibenion y Siarter, ystyrir bod BBaChau yn grŵp amrywiol o fusnesau, sy'n amrywio o unig fasnachwyr i gwmnïau sefydledig, sylweddol – gan gynnwys busnesau cychwynnol, busnesau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, cymdeithasau gwirfoddol a chymunedol, mentrau cymdeithasol a busnesau a gynorthwyir. Mae'r Siarter ddiwygiedig yn cynnwys cefnogaeth gan Graham Benfield, Prif Weithredwr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.*

2.1.4 Gwerth am Arian, Gwerth Gorau a Fforddiadwyedd

Gwerth am arian yw un o ofynion craidd caffael da a nodwyd gan y Llywodraeth. Mae 'gwerth gorau' yn cyflwyno dynameg ychwanegol i awdurdodau lleol: disgwylir i'w caffael gynhyrchu 'gwelliant parhaus'.

Mae dulliau cyflawni gwerth am arian neu werth gorau yn seiliedig ar dri phenderfyniad cyn caffael:

- beth mae'r prynwr yn ceisio ei gyflawni, e.e. ai dim ond gwelliannau SATC neu adfywio ffisegol, economaidd a chymdeithasol ehangach?
- beth yw'r ffordd orau i gaffael y gofynion (gweler dewisiadau 'Sut i Brynu' isod)? a wedyn
- beth ddylid ei gynnwys yn y fanyleb (gweler dewisiadau 'Beth i'w Brynu' isod)?

Yn y bôn, dylai prynwyr a gweithwyr caffael proffesiynol sicrhau mai gwerth gorau yw eu hegwyddor arweiniol pan fyddant yn prynu nwyddau neu wasanaethau. Dyma egwyddor sy'n cwmpasu llawer mwy na gwerth am arian ac sy'n estyn i feysydd fel datblygu cynaliadwy, materion amgylcheddol a rhoi budd i'r economi leol.

Diffinio Gwerth am Arian	Diffinio Gwerth Gorau
... y cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan ac ansawdd (neu addasrwydd at ddiben) i fodloni gofyniad y defnyddiwr. (Swyddfa Masnach y Llywodraeth 1998)	... gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd yr arferir ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o gynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (Deddf Llywodraeth Leol 1999 a.3(1))

9 Ibid

10 http://www.ogc.gov.uk/documents/Policy_principles_-_Social_Issues.pdf

11 Swyddfa Masnach y Llywodraeth. *OCG Policy Principles. Social Issues in Procurement,* 2009. Ar gael o www.ogc.gov.uk

2.1.5 Awdurdodau Lleol

a) Lles Cymunedol

Mae LlCC wedi cyhoeddi cyfarwyddyd ar gyfer ymgynghoriad i awdurdodau lleol Cymru – "y Pŵer i Hybu neu Wella Lles Economaidd, Cymdeithasol neu Amgylcheddol".[12] Mae hwn:

- yn rhestru 'mesurau i annog busnesau bach'[13] mewn rhestr o ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at wella lles;
- yn pwysleisio rôl y pŵer o ran annog arloesedd ac yn nodi y gall hwn fod yn 'bŵer cam cyntaf' ac y ceir ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau y mae cyrff eraill yn bennaf gyfrifol amdanynt;[14]
- yn rhestru 'hyrwyddo datblygu cynaliadwy', 'lleihau anghydraddoldeb', a 'hyrwyddo datblygu economaidd' ymhlith y rhestr gweithgareddau y gellir eu cynnal; ac
- yn egluro bod y pŵer yn galluogi awdurdod lleol i 'fynd i wariant' o dan y ddarpariaeth les.[16]

b) Strategaeth Gymunedol

Disgwylir i bob awdurdod lleol weithio gyda phartneriaid yn lleol ac yn rhanbarthol i lunio strategaeth gymunedol. Fodd bynnag, nid ydynt fel arfer yn cael eu drafftio yn sail i gefnogi cynnwys caffael sy'n gyfeillgar i BBaChau. Mae'n amlwg bod cyfle i gefnogi'r agenda BBaCh drwy Strategaeth Gymunedol, a dylid ystyried hwn.

Mae LCCiaid a chyrff eraill â phwerau prynu yn aml yn cael eu cynnwys gydag awdurdodau lleol wrth ddatblygu'r strategaeth gymunedol a gellid ystyried cynnwys y testun canlynol er mwyn darparu polisi sy'n sail i gynnwys materion cadwyn gyflenwi a materion cymdeithasol eraill yn eu contractau caffael a'u cytundebau eraill:

> *Bydd y Partneriaid yn parhau i ddefnyddio eu holl bwerau, ble bynnag y gallant, i wneud unrhyw beth yr ystyriant y bydd yn hyrwyddo neu'n gwella lles yr ardal. Ymhlith y camau i'w cymryd mae:*
>
> - *gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fusnesau bach a chanolig sy'n gweithio yn yr ardal neu o amgylch yr ardal lle mae buddsoddiad yn digwydd;*
> - *sicrhau y cynrychiolir grwpiau dan anfantais sy'n aml yn cael eu cyflogi gan sefydliadau fel y rheini yn y 3ydd sector a'r sector busnes a gynorthwyir;*
> - *datblygu gweithlu sy'n fedrus iawn ac yn uchel ei gymhelliant ac sy'n wirioneddol yn gallu bodloni anghenion yr economi;*
> - *sicrhau bod cyflogwyr yn recriwtio'n lleol cymaint â phosibl, gan gynnwys darparu hyfforddiant a chymorth i newydd-ddyfodiaid a'r rheini sy'n dychwelyd i'r farchnad lafur; a*
> - *darparu'r sgiliau i breswylwyr er mwyn iddynt gystadlu am y gyflogaeth a grëir gan fuddsoddiad newydd mewn gwasanaethau cyhoeddus a menter breifat, a'u galluogi i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy.*

12 Mae cyfarwyddyd ar gyfer ymgynghoriad ar gael yn: http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/consultation/090123wellbeinge.pdf Nid ydym yn siŵr bod hwn wedi'i gynhyrchu yn ei ffurf derfynol.

13 Ibid adran1.6

14 Ibid adran 2.3

15 Ibid. adran 2.10

16 Ibid. adran 2.11

2.2 Fframwaith Polisi a Chyfreithiol yr UE

Sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i BBaChau yn fframwaith caffael yr UE

2.2.1 Cyfraith Achosion y DU a'r UE

Bu rhai achosion pwysig yn Llys Cyfiawnder Ewrop ynghylch cymalau cymdeithasol mewn contractau cyhoeddus, yn arbennig cyfleoedd i BBaChau, sydd wedi dylanwadu ar ddeddfwriaeth gaffael yr UE a'r DU, ac sy'n parhau i ddatblygu ffurf y gyfraith fel mae'r llysoedd yn ei dehongli. Crynhoir y rhain yn y tabl isod. Am ddarluniad llawnach o gyfraith achosion yr UE a'r DU ynghylch pwnc buddion cymunedol ehangach, gan gynnwys Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu, cyfeiriwch at Adnodd 2, adran 2 o Becyn Cymorth Gallu Gwneud - Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu, sydd ar gael ar y ddolen ganlynol. **http://www.whq.org.uk/docs/i2i/english/aboutDocE22.pdf**

Nid yw'n hawdd cysoni'r holl achosion â'i gilydd na'u cysoni â chyfarwyddyd cyfredol y Comisiwn Ewropeaidd ond maent yn sefydlu rhai egwyddorion pwysig sy'n berthnasol i gynnwys y gadwyn gyflenwi a materion cymdeithasol eraill mewn caffael gan awdurdodau contractio, gan gynnwys:

- mae'n bosibl cynnwys gofynion sy'n gyfeillgar i BBaChau mewn caffael cyhoeddus ar yr amod nad yw'r drafftio na'r broses yn rhoi cynigyddion dan anfantais os nad ydynt yn lleol, er enghraifft drwy fynnu bod ganddynt wybodaeth am y farchnad leol, neu swyddfa leol, neu eu bod yn defnyddio deunydd lleol;
- caniateir gofynion amgylcheddol (a thrwy oblygiad) economi leol sy'n mynd i'r afael ag un o amcanion polisi'r prynwr: nid oes angen iddynt ddarparu budd economaidd i'r prynwr; ac
- mae'n rhaid y gellir mesur a dilysu pob gofyniad.

Hyd yma, nid oes llawer o sialensiau caffael cyfreithiol wedi cyrraedd llysoedd y DU, felly prin yw'r gyfraith achosion ddomestig i arwain awdurdodau contractio ar ddefnyddio cymalau cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r achosion yn y tabl canlynol (y daw nifer ohonynt o Ogledd Iwerddon) yn gwneud rhai pwyntiau perthnasol y dylid eu cofio.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r achosion, a dylai tîm cyfreithiol pob sefydliad ei ddarllen a'i ddehongli cyn cymryd camau caffael pellach. Fodd bynnag, mae'r crynodeb hwn gan Anthony Collins Solicitors yn darparu goblygiadau cyfreithiol yr achosion hyn i weithwyr caffael proffesiynol y DU.

> ***"O ddeunydd yr achos, gellir dod i'r casgliad ei bod yn debygol y bydd digon o bwerau gan awdurdodau lleol, darparwyr tai cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru a llawer o gyrff cyhoeddus eraill i gynnwys mesurau cyfeillgar i BBaChau yn eu prosesau caffael ac i gaffael mewn ffyrdd sy'n annog cynnwys BBaChau mewn contractau cyhoeddus. Mae datblygu cynaliadwy'n darparu ymbarél polisi y gellir ychwanegu ato bolisïau cynhwysiant cymdeithasol, adfywio a datblygu economaidd lleol mewn sefydliadau caffael unigol. Gall camau priodol sy'n gyfeillgar i BBaChau - fel y'u disgrifir yn yr Adnodd hwn ac yn Adnodd 3 - gyd-fynd â fframweithiau polisi a chyfreithiol yr UE a chyd-fynd â pholisïau gwerth am arian a gwelliant parhaus."***

Tabl 1 Canllaw Byr i Gyfraith Achosion Caffael Perthnasol yn y DU ac Ewrop

Brent v Risk Management Partners	Cyngor Bwrdeistref Brent yn Llundain (apelydd) v Risk Management Partners (gwrthapelydd) a (1) London Authorities Mutual Limited (2) Cyngor Bwrdeistref Harrow yn Llundain (Buddgyfranogwyr) [2009] EWCA Civ 490	Nid oedd cyfranogi mewn cwmni yswiriant cydfuddiannol yn rhan o'r pwerau a roddwyd i awdurdodau lleol o dan adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (y pwerau "lles"). Mae rhai wedi ystyried bod hyn yn arwydd na fydd y llysoedd yn ystyried bod pwerau lles awdurdodau lleol mor bellgyrhaeddol ag y cânt eu drafftio.
Federal Security Services	Federal Security Services Limited (achwynydd) v Gwasanaeth Llysoedd Gogledd Iwerddon (diffynnydd) a Resource (NI) Limited (parti sy'n cyfryngu) [2009] NIQB 15	Dylai cyfarwyddiadau tendro a meini prawf dyfarnu fod yn sicr ac yn ddiamwys.
Henry Brothers	Henry Brothers (Magherafelt) Limited ac Ors v Adran Addysg Gogledd Iwerddon [2008] NIQB 105	O leiaf yn y prif gyfnod ystyried, nid yw'n bosibl hepgor meini prawf sy'n berthnasol i bris. Oni osodwyd cost y gwasanaethau neu'r nwyddau perthnasol, byddai'n anodd iawn penderfynu'n wrthrychol o gwbl pa dendr oedd y "tendr â'r manteision economaidd mwyaf", heb arwydd o bris y gellir ystyried elfennau heblaw pris mewn cysylltiad ag ef.
McLaughlin & Harvey	McLaughlin & Harvey Limited v yr Adran Cyllid a Phersonél [2008] NIQB 91	Os defnyddir is-feini prawf yn rhan o'r asesiad o dendrau, mae'n rhaid datgelu'r rhain i gynigyddion.
Letting International	Letting International Limited v Cyngor Bwrdeistref Newham yn Llundain [2008] EWHC 1583 (QB)	Mae'r ddyletswydd ar awdurdod contractio i weithredu mewn modd tryloyw yn cynnwys yr angen i ddatgelu pwysiadau a meini prawf dyfarnu contract yn ddigonol ymlaen llaw, gan gynnwys nodi meini prawf ac is-feini prawf manwl os defnyddir y rhain.

Teipoleg o Ddewisiadau Caffael sy'n Gyfeillgar i BBaChau

Mae'n debygol y bydd y buddion i BBaChau, a BBaChau o ardal darged yn enwedig, yn cynyddu gyda'r mathau o gamau a gymerir. Gallai'r effaith fwyaf ddigwydd drwy ddewisiadau 'beth i'w brynu', ac wedyn dewisiadau 'sut i brynu', ond ni fydd y rhain yn cael hanner cymaint o effaith os na hysbysebir y cyfleoedd sydd ar gael a'r cymorth y gellir ei roi i'r cyflenwyr.

Dewisiadau 'Beth i'w Brynu'

- Trafod â'r farchnad cyn caffael: Trafod dewisiadau â'r farchnad yn gynnar
- Rheoli cadwyn gyflenwi: Ystyried gosod contract i gaffael a rheoli cadwyn gyflenwi
- Gwaith a datblygu cadwyn gyflenwi: Cynnwys gweithgareddau cefnogi BBaChau yn nhestun y contract;
- Contractau llafur yn unig a chyflenwi yn unig: Caffael llafur a deunyddiau ar wahân i agor cyfleoedd i BBaChau.

Dewisiadau 'Sut i Brynu'

- Llunio contractau fel bod BBaChau'n gallu rhoi cynnig arnynt
- Cydweithio ar gontractau mawr, a gydgasglir
- Contractau neilltir – y dewis i gaffael 20% o werth contract cyffredinol drwy un neu fwy contract llai
- Rhannu'n 'lotiau': Gofynion yn lotiau llai, a allai ddenu cwmnïau llai
- Contractau fframwaith gyda chyflenwyr lluosog
- Newid yr holiadur cyn-gymhwyso: Symleiddio a safoni proses yr holiadur cyn-gymhwyso

Hysbysu Cynigyddion Posibl

- Cyhoeddi Canllaw Caffael: Dilyn arfer gorau o'r Cynlluniwr Llwybr Caffael
- Hysbysebu lleol ar gyfer pob cyfle: y wasg a gwefan
- Hysbysebu'n lleol yn unig ar gyfer contractau llai
- Digwyddiadau 'Cwrdd â'r Prynwr': Cyn y broses gaffael
- GwerthwchiGymru: safle porthol caffael Cymru
- Cronfa Ddata Busnesau Lleol: Gall roi gwybod i fusnesau lleol am gyfleoedd contract
- Cronfeydd data eraill: WVCA, CBI er enghraifft

Datblygu Cyflenwyr

- Adeiladu Cymru: rhaglen cymorth busnes a ariennir gan LlCC
- Y Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr: Asiantaethau cefnogi sy'n gallu cefnogi busnesau lleol o ran Sut i Dendro am waith
- Ffurfio consortiwm: Nifer o gyflenwyr lleol i gynnig fel un endid am gyfle contract.

3.1 Gweithgareddau 'Beth i'w Brynu'

3.1.1 Trafod â'r farchnad ac ymgysylltu â'r gymuned

Mae arfer caffael da'n awgrymu bod prynwyr yn trafod eu hanghenion sydd i ddod â chyflenwyr posibl cyn iddynt ddechrau'r broses gaffael. Gall hyn eu helpu i benderfynu beth i'w brynu a sut orau i'w brynu er mwyn cyflawni eu hamcanion ar gyfer y caffael.

Fel un dull o ryngweithio â'r farchnadfa, gall awdurdodau contractio ystyried trafod eu gofynion â chynigyddion posibl cyn unrhyw ymarfer tendro. Er ei bod yn rhaid i'r awdurdod contractio ofalu rhag gwahaniaethu rhwng cynigyddion wrth wneud hynny, cyhyd â bod unrhyw ymgynghori a thrafod yn agored ac yn dryloyw, gall hyn fod yn ffordd ddefnyddiol o brofi galluoedd cynigyddion posibl ar y farchnad a ffurfio gofynion heriol ond realistig. Gall fod yn ddefnyddiol hyd yn oed rhoi gwybod i'r farchnadfa am y gofynion cytundebol a'r arfau monitro/rheoli arfaethedig cyn unrhyw ymarfer tendro ffurfiol.

Cynnwys Tenantiaid yn y Broses Gaffael – Merthyr Valley Homes

Mae tenantiaid wrth wraidd y gwasanaeth mae MVH yn ei gyflenwi ac un o'r pethau a fu'n allweddol i lwyddiant y rhaglen fu eu cynnwys ym mhob cam. Maent yn deall egwyddorion a nodau recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu ac adfywio. Hyfforddwyd panel yn benodol i ddeall a gwerthfawrogi'r contractau, a'u cymalau. Maent wedi penderfynu ar y sgôr i'w dyrannu mewn perthynas â phob holiadur cyn-gymhwyso a gyflwynir ac wedi mynd ati i sgorio contractwyr a llunio rhestr fer.

Aeth Fforwm Dylunio Ansawdd y tenantiaid ati i sefydlu matrics sgorio ar gyfer cyflenwi unedau cegin, a oedd yn cynnwys cyfleoedd adfywio a chyflogaeth. Aethant i ymweld â chwe chyflenwr ceginau a chlywed cyflwyniadau ganddynt a dewis cwmni sydd yn ardal teithio i'r gwaith Merthyr Tudful – a oedd eisoes yn cyflogi 5 preswyliwr lleol – yn gyflenwr.

Yn ôl adborth y paneli tenantiaid, er bod hyn yn waith caled, roeddent yn teimlo eu bod yn cyfrannu'n werthfawr at ddewis contractwr ac adfywio Merthyr yn y pen draw.

Cyswllt: Mike Williams. Cyfarwyddwr Rheoli Asedau, Merthyr Valley Homes.
Ffôn. 07595 088269 E-bost michael.williams@mvhomes.org.uk

3.1.2 Rheoli disgwyliadau busnes lleol

Mae'n bwysig darparu negeseuon realistig i fusnesau lleol mewn perthynas â:

- graddfa buddsoddiad a math o fuddsoddiad;
- y safonau ariannol ac ansawdd y bydd yn rhaid i gontractwyr a chyflenwyr eu bodloni, a sut yr asesir y rhain yn y broses gaffael;
- yr amserlen ar gyfer caffael ac adeiladu.

Gall problemau godi os na thrafodir yn gynnar y cyfleoedd i sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r economi leol ac os na chytunir ar drywydd. Dylid rhannu hwn wedyn â phob parti (gan gynnwys Cynghorwyr lleol er enghraifft) y gallai busnesau lleol neu'r cyfryngau fynd ato.

Elfennau Alweddol wrth Gefnogi Contractwyr Lleol

- Dylai sefydliadau cleient (pa un ai'n Awdurdod lleol neu'r LCC sydd newydd ei ffurfio) ddatblygu strategaeth gyfathrebu i gontractwyr ochr yn ochr â'r broses trosglwyddo stoc a datblygu'r rhaglen fuddsoddi. Gallai'r cyfathrebiad hwn ganolbwyntio ar drosglwyddo stoc dai yn llwyr, neu fel y mae llawer o Awdurdodau Lleol wedi llwyddo i'w wneud yn y gorffennol, cynnwys y trosglwyddo stoc yn un o nifer o gyfleoedd sy'n codi o'r Awdurdod arbennig hwnnw. Pa egwyddor bynnag a ddefnyddir, mae'n hanfodol bod sefydliad y cleient yn rheoli'r modd y cyflenwir y strategaeth hon.
- Dylid rhannu'r strategaeth hon â Chynghorwyr, swyddogion, y `Bwrdd Cysgodol', arweinwyr tenantiaid: pobl y gallai busnesau neu'r cyfryngau fynd atynt am wybodaeth.
- Dylid rhoi gwybod i gontractwyr am fath, graddfa a safonau ansawdd y gwaith i'w gyflenwi, y broses gaffael a pham y dewiswyd hyn.
- Dylai sefydliadau cleient gynnwys Adeiladu Cymru yn gynnar.

Paul Wintle. Rheolwr Prosiect Adeiladu Cymru. 01792 222491 Paul.wintle@wales.gsi.gov.uk

3.1.3 Contract Rheoli Cadwyn Gyflenwi

Yr ymagwedd fodern at adeiladu yn aml yw rheoli'r gadwyn gyflenwi ac, o ystyried popeth, prin yw'r staff a'r cyflenwadau sy'n cael eu darparu'n uniongyrchol gan y prif gontractwr. Gall y ffordd y darperir y rheolaeth hon effeithio'n sylweddol iawn ar y costau yn ogystal â'r cyfleoedd sydd ar gael i BBaChau a busnesau lleol. Ymhlith yr ymagweddau a ddefnyddir mae:

- dyfarnu un contract mawr i gwmni cenedlaethol ond gan gynnwys gofyniad ei fod yn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i BBaChau neu'r gadwyn gyflenwi leol: mae hyn yn gadael y gwaith rheoli i'r prif gontractwr;
- rheoli nifer cyfyngedig o gontractwyr (efallai 4-8) sy'n cyflenwi'r gwaith gyda'i gilydd drwy eu cadwyni cyflenwi unigol: mae hyn yn rhannu swyddogaethau rheoli'r gadwyn gyflenwi rhwng y cleient a'r contractwyr;
- penodi nifer mwy o gontractwyr, cyflenwyr ac ymgynghorwyr fframwaith y dyfernir iddynt gontractau yn ôl y gofyn cymharol fach: yma, y cleient sy'n rheoli'r gadwyn gyflenwi gan mwyaf;
- rhannu'r contractau ar gyfer cyflenwi deunyddiau a chydrannau o'r rheini ar gyfer cyflenwi llafur i osod y deunyddiau: mae hyn yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar y cleient i reoli'r gadwyn gyflenwi.

Mae costau ychwanegol i'r cleient os rheolir y gadwyn gyflenwi'n fewnol ond dylai'r arbedion ym mhrisiau'r contract wneud iawn am y rhain. Dyma rywbeth y mae'n rhaid i'r sefydliad ei ystyried gan ddibynnu ar faint a math y contract. Yn ddiddorol, un o'r materion mae rhanddeiliaid wedi'i godi yn ogystal â chostau cynyddol rheoli mewnol fu'r diffyg adnoddau mewnol i reoli'r gwaith os caiff ei wneud gan nifer mwy o gontractwyr llai yn hytrach nag ychydig o gontractwyr mawr. Dyma broblem y mae angen ei chysoni cyn penderfynu rheoli contract naill ai'n fewnol neu drwy gwmni rheoli cadwyn gyflenwi.

Mae gwneud mwy o'r gwaith rheoli cadwyn gyflenwi yn fewnol yn gallu arwain at wario llai o gyllid ar orbenion ac elw contractwyr. Mae rhai landlordiaid cymdeithasol bellach yn cael ad-daliadau gan gyflenwyr nas datgelwyd o'r blaen – hyd yn oed mewn contractau agored – gan nad ydynt yn gysylltiedig â phryniannau unigol. Gall y rhain helpu i dalu am reoli mewnol, a all fod yn gyfle i uwchsgilio, neu dyfu arbenigedd rheoli cadwyn gyflenwi yn y sefydliad, neu fuddion cymunedol ychwanegol.

Os bydd y cleient yn dewis caffael gwasanaethau rheoli cadwyn gyflenwi ar wahân i'r prif gontract neu gontractau cyflenwadau a gwasanaethau, bydd y contract hwn yn gyffredinol ar ffurf contract gwasanaethau proffesiynol. Gall y cleient ddewis defnyddio contract gwasanaethau pwrpasol. Beth bynnag, gellir drafftio'r fanyleb ar gyfer y gwasanaethau a gynhwysir yn y contract yn benodol i gynnwys y gwasanaethau mae'r cleient yn dymuno i'r rheolwr cadwyn gyflenwi eu darparu. Gallai hyn gynnwys:

- rheolwr prosiect;
- bod yn asiant i'r cyflogwr;
- gwasanaeth ymgynghori ynghylch caffael.

Pan fydd swyddogaeth rheoli'r gadwyn gyflenwi wedi'i gwahanu oddi wrth weddill y broses gontractio, mae'n rhesymol gofyn beth yw'r ffordd orau i wneud hyn er mwyn cefnogi caffael sy'n gyfeillgar i BBaChau. Hynny yw, drwy amodau contract uniongyrchol mewn contract rheoli cadwyn gyflenwi NEU drwy reoli'r gadwyn gyflenwi'n fewnol a chontractio'n uniongyrchol gyda BBaChau lleol. Os bydd y contract yn mynd allan i sefydliad rheoli cadwyn gyflenwi, bydd yn rhaid ystyried pwy fydd yn gweithio fel Cydlynydd Rheoli Dylunio Adeilad.

Rheoli Contract yn Fewnol

Mae Cymdeithas Tai Unedig Cymru'n treialu rheoli contract yn fewnol ar waith £2.5m i ailwampio tai gwarchod yng Nghaerdydd. I hwyluso hyn, mae wedi penodi:

- rheolwr prosiect
- Cydlynydd Rheoli Dylunio Adeilad
- cydlynydd ar y safle
- swyddog cyswllt tenantiaid.

I bob pwrpas, mae'r tîm hwn – yr oedd rhan fwyaf ei aelodau eisoes wedi'u cyflogi gan y sefydliad ac sy'n derbyn y cyfrifoldebau newydd yn ddim ond un rhan o'u swyddi – yn disodli staff a fyddai'n cael eu cyflogi fel arfer gan y prif gontractwr ac y codir tâl amdanynt i'r cleient ym mhris y contract. Mae Cymdeithas Tai Unedig Cymru'n disgwyl i'r ymagwedd hon gynhyrchu arbedion gan y bydd yn rhoi llawer mwy o reolaeth iddi ar gostau a gwaith safle.

Daw un elfen o arbed costau drwy gaffael deunyddiau a chydrannau ar wahân i gaffael llafur. Mae hyn yn golygu bod pob contract yn weddol fach ac na fyddai'n ddeniadol i gynigyddion o'r tu allan i'r ardal leol. Nodwyd cyflenwyr posibl o ardaloedd Caerdydd, Blaenau Gwent a Chaerffili a'r cylch lle mae'r sefydliad yn gweithredu. Cynhaliwyd cyd-drafodaethau â'r cyflenwyr a chyhoeddwyd tendrau ar gyfer y contractwyr llafur yn unig. Dyfarnwyd yr holl gontractau gwaith a chyflenwadau i BBaChau lleol.

Dyma ymagwedd newydd i'r sefydliad a bydd yn cael ei gwerthuso ar sail bodlonrwydd y tenant, cost a gwerth am arian, a'r berthynas â'r gadwyn gyflenwi.

Cyswllt: Richard Mann. Cyfarwyddwr Datblygu a Buddsoddi yn y Gymuned. Cymdeithas Tai Unedig Cymru. Ffôn 02920 858117 E-bost R.Mann@UWHA.co.uk

Mae'n amlwg na ellir cymryd yr ymagwedd hon ar gyfer pob contract ac y bydd yn gweithio orau ar waith cynlluniedig llai na chontractau gwella SATC ar raddfa fawr, lle bydd y costau'n fwy na throthwy'r UE. Fodd bynnag, mae llawer o gymdeithasau tai'n caffael gwaith fesul dipyn, ac yn ymgysylltu'n llwyddiannus â BBaChau.

3.1.4 Cynnwys gofynion cadwyn gyflenwi yn y fanyleb

Gan na fydd efallai llawer o gontractwyr, sydd fel arall yn ardderchog, yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i lunio ymateb tendr i ofyniad cyffredinol ynglŷn â budd economaidd lleol, gallai fod yn well petai'r cleient yn nodi'r hyn mae arno eisiau ei weld wedi'i gyflenwi i gyflawni'r budd hwn.

Dylid cyfeirio at y gofynion cadwyn gyflenwi yn yr hysbysiadau contract a gellir gofyn cwestiwn priodol yng nghyfnod yr holiadur cyn-gymhwyso i holi ynghylch profiad technegol a rheolaethol prif gontractwyr posibl mewn perthynas â gofynion cadwyn gyflenwi'r cleient.

Fel gyda rhannau eraill o'r fanyleb, mae'n bwysig cadw at yr arfer da canlynol:

- nodi'r gofynion cadwyn gyflenwi mewn modd diamwys;
- cael Datganiad Dull gyda'r tendr sy'n nodi sut y bodlonir y gofynion: mae hyn yn bwysig yn enwedig pan fydd y gofyniad am gael ei sgorio yn rhan o'r broses dyfarnu contract;
- gallai fod yn syniad da gosod proses gaffael a dargedir e.e. mynnu bod digwyddiad 'cwrdd â'r prynwr' yn cael ei hysbysebu a'i drefnu, neu efallai datblygu rhaglen weithgarwch gydag Adeiladu Cymru a fydd yn datblygu cysylltiadau rhwng y contractwr a chadwyn gyflenwi leol;
- ystyried sut y bydd y gofynion yn cael eu monitro er mwyn sicrhau a phrofi eu cyflenwi;
- sicrhau nad yw'r gofynion yn rhoi cynigyddion dan anfantais os nad ydynt yn lleol e.e. drwy roi ffynhonnell o wybodaeth am gyflenwyr lleol sydd ar gael i'r un graddau i unrhyw gynigydd;
- sicrhau bod modd cyflenwi'r gofynion: a oes digon o gyflenwyr lleol â'r arbenigedd a'r gallu gofynnol?
- cynnwys 'ymwadiad' i sicrhau bod y contractwr yn gyfrifol am y gadwyn gyflenwi a gyfloga, pa waith broceriaeth bynnag a wna'r cleient.

Un peth sy'n allweddol i brynwyr, os oes arnynt eisiau cynnwys gofynion cadwyn gyflenwi yn rhan o destun contract, yw canfod a oes cyflenwyr posibl i'r prif gontractwr eu cyflogi. Yn aml, mae hyn yn golygu cadw'r ddysgl yn wastad rhwng cadw'r buddion yn lleol a bodloni'r manylebau, y gyllideb, a'r amserlenni a nodir yn y contract.

Mae materion cyd-destunol yn gallu effeithio ar hyn: bydd llawer mwy o BBaChau mewn dinasoedd nag ardaloedd gwledig, a gall cwmnïau lleol fod yn fwy cystadleuol mewn ardaloedd gwledig cymharol anghysbell. Mae'n rhaid i brynwyr bwyso a mesur yr ystyriaethau hyn wrth drafod yn fewnol cyn caffael.

Un peth sy'n allweddol i ofynion cadwyn gyflenwi yw pryd y cânt effaith. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig:

- cynnwys y gofynion cadwyn gyflenwi yn yr hysbysiadau contract, holiaduron cyn-gymhwyso a'r fanyleb a chael datganiad dull sy'n nodi sut y bodlonir y gofynion gyda'r tendr: gallai hyn olygu na fydd y contract yn ddeniadol i gwmnïau sydd wedi sefydlu trefniadau cadwyn gyflenwi;
- sicrhau bod negeseuon priodol yn cael eu rhoi i BBaChau lleol: y bydd dyfarnu gwaith yn dibynnu ar eu gallu i gystadlu;
- sicrhau bod cymorth mentora a datblygu busnes ar gael i'r cyflenwyr targed, a chymorth tendro i'w helpu i gael contractau, yn enwedig os nad yw'r cwmnïau wedi arfer â gweithio i gontractwyr mwy.

I oresgyn yr anfantais bosibl a allai wynebu cwmnïau nad ydynt yn lleol wrth gynnig am gontract sy'n cynnwys gofynion a dargedir ar yr ochr gyflenwi, mae'n bwysig bod pob cynigydd yn gallu cael at gronfeydd data Awdurdod Lleol a GwerthwchiGymru.

Gellid defnyddio GwerthwchiGymru pan fydd y contract wedi'i osod i hysbysebu'r holl gyfleoedd dilynol i isgontractwyr. Felly dylai fod pob contractwr yn gallu defnyddio'r safle.

3.1.5 Contractau Llafur yn unig a Chyflenwi yn unig

Drwy gaffael y deunyddiau a'r darnau gosod ar wahân i'r llafur, gellir annog BBaChau i ennill contractau, gan fod hyn yn rhoi mwy o reolaeth ar ffynhonnell deunyddiau a darnau gosod – ac mae'n galluogi BBaChau i gynnig am becynnau gwaith anghymhleth.

Drwy wneud hyn, gellir hefyd lleihau'r gost i'r prynwr gan nad yw'n talu maint elw i'r contractwyr gwaith ar y deunyddiau a'r darnau gosod, a gall elwa ar drefniadau 'arian yn ôl' rhwng cyflenwyr a chontractwyr. Mae hyn yn wir yn enwedig os bydd prynwr sector cyhoeddus neu landlord cymdeithasol neu gonsortiwm o landlordiaid yn prynu llawer iawn o gyflenwadau (e.e. boeleri, unedau ffenestr, ceginau).

3.2 Gweithgareddau "Sut i Brynu"

3.2.1 Cynllunio contractau fel bod BBaChau'n gallu cynnig

Os penderfynir fesul dipyn gwneud gwaith penodol, gellir caffael y gwaith drwy amrywiaeth o gaffaeliadau untro: nid oes angen cydgasglu'r rhain mewn un contract mwy. Drwy gaffael yn y modd hwn, gellir rhoi mwy o gyfle i BBaChau gynnig. Fodd bynnag, os bydd awdurdod contractio'n gwybod ei fod yn bwriadu prynu gwaith, gwasanaethau neu gyflenwadau tebyg dros gyfnod blwyddyn, dylai gydgasglu'r gwerthoedd hyn a chydymffurfio â rheolau caffael yr UE yn ôl yr angen. Mae hyn yn gadael disgresiwn sylweddol o hyd a allai ddarparu cyfleoedd i BBaChau e.e. beth i'w brynu - er enghraifft:

- Drwy gaffael mewn lotiau;
- Dewisiadau cyflenwi a gosod.

"Cwestiynu cysyniad 'gorau po fwyaf'"

Mae'r llenyddiaeth ar gaffael gan BBaChau yn cyflwyno manteision cyflenwyr llai: maent yn aml yn fwy arloesol, yn deall y cyd-destun lleol yn well, yn fwy hyblyg ac yn fwy ymatebol i anghenion y cleient wrth i'r contract symud yn ei flaen. Mae nifer o ddarparwyr tai cymdeithasol yn credu bellach mai'r ffordd orau iddynt fuddsoddi yn SATC yw defnyddio grŵp o gontractwyr – wedi'i gydlynu efallai drwy grŵp cyflenwyr o dan gontractau 'partneru' – yn hytrach nag un contractwr mawr.

Efallai bydd angen i Gymdeithasau Trosglwyddo Stoc ar Raddfa Fawr yn arbennig fod yn ofalus wrth ystyried yr ymagwedd hon; oherwydd bydd cymdeithasau newydd a grëwyd i gyflenwi rhaglenni buddsoddi mawr yn naturiol yn mynd heibio terfynau caffael yr UE. Fodd bynnag, gellir cysylltu hyn â chaffael y gwaith mewn lotiau neu grŵp o gontractwyr o dan fframwaith sy'n galluogi nifer mwy o ddarparwyr i gyfranogi gan gynnwys, efallai, rhai BBaChau a busnesau lleol.

3.2.2 Neilltuo contractau i fusnesau a gynorthwyir

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gefnogi cyflogi pobl ag anableddau ac mae Erthygl 19 o'r Rheoliadau Caffael Cyhoeddus yn caniatáu i awdurdodau sy'n contractio neilltuo contractau i fusnesau yn y sector hwn. Mae canllawiau i hyn i'w canfod ar y Cynlluniwr Siwrnai Caffael.

3.2.3 Contractau neilltir: lotiau 20%

O dan reol 'lotiau bach', gellir neilltuo 20% o werth pob caffaeliad i ffurfio un neu fwy contract llai a fydd yn fwy addas i BBaChau. Ni ellir targedu hwn at fathau arbennig o gwmni, ond gellir cefnogi 'cwmnïau targed' i fod mor gystadleuol â phosibl. Un o'r syniadau mae Cartrefi RCT yn ei ddatblygu yw nodi rhai cwmnïau bach a fydd yn cael eu helpu i dyfu'n gynyddol drwy ddyfarnu cyfres o gontractau.

> ***"Fel cymdeithas tai gydfuddiannol gymunedol, mae tenantiaid a chymdogaethau wrth wraidd yr hyn a wnawn. Mae BBaChau yn rhan o'r cymunedau hyn, yn gweithio mewn cymdogaethau ac yn cyflogi pobl leol"***
>
> Greg Montgomery. Cyfarwyddwr Buddsoddi ac Adfywio. Cartrefi RCT.

3.2.4 Lotiau

Mae prynwyr yn gallu hysbysebu contract cyfan mewn 'lotiau'. Dylid cynnwys maint y lotiau ac unrhyw gyfyngiadau ar nifer y lotiau i'w dyfarnu i un cynigydd yn yr hysbysiad contract. Bwriad hyn yw galluogi cwmnïau o amryw feintiau i gael gwaith. Byddai contractwyr posibl yn cyflwyno cynigion am un lot neu fwy ar wahân, a byddai'r gwerth am arian neu'r gwerth gorau'n cael ei asesu fesul 'lot'.

Os yw gwahoddiadau i dendro ar gyfer pob lot yn seiliedig ar holiaduron cyn-gymhwyso, mae'n bwysig adolygu'r cwestiynau a chwalu rhwystrau a allai atal BBaChau rhag cael eu gwahodd i dendro. Mae angen anelu'r cwestiynau at asesu gallu'r cynigydd posibl i gyflawni contractau o wahanol feintiau, yn hytrach na disgwyl i bob cynigydd arddangos yr un lefel o allu a phrofiad.

3.2.5 Cytundebau fframwaith

Mae contractau fframwaith yn caniatáu dyfarnu i gwmnïau ar y contract gymaint o waith ag sy'n briodol i'w gallu ariannol a threfniadaethol. Gellir cynyddu'r gwaith wrth i'w gallu gynyddu.

Bydd caffaeliad cytundeb fframwaith yn gweithio yn yr un modd ag unrhyw gaffaeliad arall – h.y. hysbysiad contract a roddir yn OJEU, a holiadur cyn-gymhwyso (os yw'n briodol) a gwahoddiad i dendro. Yn yr un modd â gosod contractau mewn 'lotiau' (a gellir cyfuno'r ddwy ymagwedd yn hawdd) mae angen i unrhyw gwestiynau holiadur cyn-gymhwyso asesu gallu'r cynigydd posibl i gyflawni contractau o wahanol feintiau, yn hytrach na disgwyl i bob cynigydd arddangos yr un lefel o allu a phrofiad.

Penodir nifer o gwmnïau wedyn ar y fframwaith.

Ar ôl penodi nifer o gontractwyr i fframwaith, gall y cleient benderfynu pa gymysgedd o gontractwyr a pha gymysgedd o feintiau i'w dyfarnu. Gellir gwneud hyn drwy gynnal 'mini-gystadleuaeth' rhwng y contractwyr, neu drwy ddyfarnu'n uniongyrchol i'r cynigydd â'r tendr sy'n cyflwyno'r gwerth gorau am arian ar gyfer y dyfarniad arbennig hwnnw. Mae'r dewis o feintiau a chontractwyr yn galluogi'r cleient i ddarparu rhywfaint o waith i BBaChau, ac mae'n bosibl cynyddu'r gwaith sy'n mynd i un neu fwy BBaCh yn raddol yn ystod y fframwaith wrth i'w gallu a'u cyflawniad wella.

Enghraifft – Defnyddio Cytundebau Fframwaith

Mae darparwr tai cymdeithasol yn dymuno dechrau nifer o wahanol brosiectau a datblygiadau, a bydd angen y gwasanaethau canlynol arnynt i gyd:

- prif gontractwyr
- penseiri
- asiantau cyflogwyr ac ymgynghorwyr costau
- ymgynghorwyr ymchwilio safle

Mae'r darparwr yn caffael pedwar gwahanol fframwaith ar gyfer y gwahanol arbenigwyr y mae eu hangen arno. Yn eu tro, caiff y rhain eu gwahanu'n lotiau yn ôl maint y prosiect neu'r datblygiad penodol y gofynnir i ymgynghorwyr a chynghorwyr y fframwaith weithio arno.

Dyrennir gwaith yn y fframweithiau (yn unol â rheolau'r UE) naill ai drwy gynnal mini-gystadleuaeth, neu benodiad uniongyrchol, ar gyfer pob contract y dymuna'r cleient fynd iddo. Os dewisir contractwr neu ymgynghorydd fframwaith i'w benodi'n uniongyrchol, dyrennir gwaith yn seiliedig ar feini prawf a osodir ymlaen llaw, gan gynnwys:

- eu pris ar y tendr
- eu llwyth gwaith cyffredinol cyfredol ar ran y cleient
- eu perfformiad mewn perthynas â dangosyddion perfformiad allweddol sefydledig
- eu cyfranogiad mewn grŵp craidd, sy'n cynnwys yr ymgynghorwyr a'r contractwyr ar y fframweithiau eraill
- eu gallu i weithio gyda chontractwyr ac ymgynghorwyr eraill a ddewiswyd i'r contract.

Mae'r gweithdrefnau dyrannu gwaith yn sicrhau na fydd un contractwr nac ymgynghorydd yn drech, a bod gwaith yn cael ei ddyrannu'n deg ac yn gyfartal ar draws contractwyr ac ymgynghorwyr y fframwaith. Maent yn sicrhau hefyd mai'r contractwyr a'r ymgynghorwyr hynny sy'n gweithio'n fwyaf effeithiol gydag eraill sy'n llwyddo i gael y gwaith.

Gall yr ymagwedd hon hefyd olygu bod y cleient yn cael rheoli'r ffordd y gwahanir y gadwyn gyflenwi; gall y cleient ddewis gan ba ymgynghorwyr a chontractwyr mae'n dymuno caffael cytundebau fframwaith unigol.

3.2.6 Newid yr Holiadur Cyn-gymhwyso

Drwy Brosiect Rhwystrau – Cyfleoedd Caffael, mae gwaith wedi dechrau i wella mynediad BBaChau ymhellach i gyfleoedd â phwyslais ar dryloywder cyfle a symleiddio / safoni gweithdrefnau caffael. I bob pwrpas, mae'r prosiect hwn yn ymwneud â goresgyn gweddill y rhwystrau rhag prif ffrydio arfer gorau ar draws y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Cytunwyd ar drywydd gweithredu â Gweinidogion a'r gyfran gyntaf o waith sy'n cael ei datblygu yw Cronfa Ddata Gwybodaeth Gymhwyso Cyflenwyr (SQuID). Mae hyn yn golygu cytuno â'r Sector Cyhoeddus ar gyfarwyddyd a set o gwestiynau cyffredin i broses yr holiadur cyn-gymhwyso.

Bydd Gwerth Cymru'n lansio'r arf ar-lein ar wefan GwerthwchiGymru (gwerthwchigymru.co.uk) tua diwedd 2010. Am wybodaeth, gysylltwch ag arweinwyr y prosiect, Sue.Hurrell@wales.gsi.gov.uk, neu Karen.coombs@wales.gsi.gov.uk.

Mae'n werth ystyried cynnal proses e-gaffael, sy'n golygu nad oes angen cynigion sgleiniog mawr, a gyflwynir yn aml gan gorfforaethau mawr yn unig. Drwy raglen cyfnewidcymru, gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu arfau caffael electronig, sef www.gwerthwchigymru.co.uk i greu a chyhoeddi pob hysbyseb a www.etenderwales.bravosolution.co.uk i reoli'r broses gaffael ar ôl cyhoeddi'r hysbyseb wreiddiol. Gan ddefnyddio'r arfau hyn, mae'n bosibl cynnal y broses gaffael gyfan ar-lein, a fydd yn bendant yn cynorthwyo BBaChau heb dimau o bobl ar gael iddynt i gynnal y broses gynnig.

3.3 Rhoi Gwybodaeth i Gynigyddion Posibl

3.3.1 Cydnabod yn gynnar

Dylai cyfleoedd i BBaChau ennill contractau yn y sector cyhoeddus fod yn rhan o gyfrifoldebau corfforaethol sefydliad, ac nid ychwanegiad. Gellir gweld o lenyddiaeth llawer o sefydliadau mai dyma sy'n digwydd mwyfwy, a bod cyfrifoldeb i'r cymunedau a wasanaethant yn rhan allweddol o'u hamcanion busnes.

> ***Ymrwymiad Corfforaethol Cymdeithas Tai Unedig Cymru***
>
> 3.1.2 Amcan: cefnogi twf drwy fuddsoddi yn ein cymunedau
>
> Targedau: ar gyfer pob cynllun datblygu newydd, adolygu cyfleoedd i ychwanegu gwerth drwy waith buddsoddi cymunedol gan edrych ar gynhwysiant cymdeithasol a chynaliadwyedd ochr yn ochr â gwerthuso ariannol.
>
> Detholiad o Strategaeth Gorfforaethol Cymdeithas Tai Unedig Cymru

3.3.2 Canllaw Caffael neu "Sut i Gontractio"

Nid yw'r canllawiau hyn yn benodol i gontract. Maent yn rhoi gwybodaeth am drefniadau prynu'r sefydliad (neu grŵp o sefydliadau) gan gynnwys (er enghraifft):

- gwybodaeth gyffredinol am gaffael cyhoeddus, gan gynnwys rheolau caffael yr UE, a pholisïau a phrosesau mewnol;
- gwybodaeth gyffredinol am weithdrefnau tendro;
- gwybodaeth am ddod yn 'gwmni cymeradwy';
- sut y caiff contractau o wahanol werth eu trin;
- os yw hyn yn cynnwys hysbysebu, ymhle y gosodir yr hysbysebion;
- sut y gall cynigydd posibl gael ei ystyried os na fydd contractau (sy'n werth llai yn nodweddiadol) yn cael eu hysbysebu;
- cysylltiadau yn y sefydliad, gan gynnwys timau caffael canolog a datganoledig, a'r eitemau maent yn gyfrifol am eu prynu.

Gall y mathau hyn o ganllawiau fod yn berthnasol i gwmnïau bach sy'n dymuno cael eu hystyried am gyfleoedd gwerth contract bach, a gallant fod yn fan cychwyn i gwmnïau sy'n dymuno dechrau cael gwaith gan y sector cyhoeddus. Gallant hefyd fod yn bwysig wrth reoli disgwyliadau drwy egluro'r fframweithiau cyfreithiol sy'n cyfyngu ar yr hyn y gall corff cyhoeddus ei wneud i dargedu ei gaffael at gwmnïau lleol, a chyd-drafod contractau.

3.3.3 Hysbysebu Lleol

Ar gyfer cyfleoedd contract penodol lle caiff cwmnïau lleol gynnig, bydd yn ddefnyddiol hysbysebu yn y wasg leol, ac ar wefan y sefydliad prynu yn ogystal â'r llwybrau hysbysebu arferol. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig i gyfleoedd o werth llai a allai fod o ddiddordeb i ficrofusnesau.

Ni cheir hysbysebu contract sy'n cael ei osod o dan reolau caffael yr UE yn lleol nac yn rhanbarthol o gwbl nes cyhoeddi hysbysiad contract yn OJEU.

3.3.4 Digwyddiadau "Cwrdd â'r Prynwr"

Gellir cysylltu'r rhain â hysbysebu lleol a / neu ehangach neu gellid eu hysbysebu yn rhan o'r wybodaeth sydd ynghlwm wrth yr Holiadur Cyn-gymhwyso. Maent yn wahoddiad agored i fynychu cyfarfod lle bydd y prynwr yn egluro beth yw ei ofynion a sut y gellir ystyried buddgyfranogwyr.

Mae'n rhaid i unrhyw ddigwyddiad "cwrdd â'r prynwr" a lwyfannir yn rhan o broses gaffael fod yn agored i bob cynigydd posibl, i sicrhau tegwch a thryloywder y broses.

Gallai fod yn ddefnyddiol cynnal digwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr' lleol ar y cyd â'r Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr, neu un o'i asiantaethau lleol, a gallai'r darparwyr hyn barhau wedyn i weithio gyda'r cwmnïau lleol i'w helpu i baratoi ar gyfer y broses gynnig.

Gall digwyddiadau "cwrdd â'r prynwr" ddigwydd hefyd pan fydd y prif gontractwr wedi'i benodi, yn enwedig os yw'n fodlon defnyddio cadwyni cyflenwi lleol cymaint â phosibl (neu os bydd amodau contract yn mynnu ei fod yn gwneud hyn).

3.3.5 GwerthwchiGymru

Rheolir GwerthwchiGymru (i fusnesau sydd â diddordeb mewn cyfleoedd contract yng Nghymru) gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy Werth Cymru. Mae ei wasanaethau'n rhad ac am ddim i brynwyr ac i werthwyr.

Cronfa ddata cyflenwyr yw GwerthwchiGymru, sy'n galluogi cwmnïau cofrestredig i ymchwilio i gyfleoedd contract sector cyhoeddus a'u gweld, ac mae'n anfon e-byst i roi gwybod am gyfleoedd sydd ar ddod i'r holl gwmnïau cynnig posibl sydd wedi cofrestru â hi. Mae Cyfleoedd e-Isgontractio hefyd ar gael i gontractwyr sy'n gwneud gwaith i'r sector cyhoeddus er mwyn hysbysebu cyfleoedd is-gontractio a chyflenwi i gyflenwyr lleol.

Contractwyr yn cael at Gofrestr GwerthwchiGymru

Os bydd prynwr wedi defnyddio GwerthwchiGymru (prynwyr) i hysbysebu'r caffaeliad, gall drefnu bod y contractwr llwyddiannus yn cael at gronfa ddata cwmnïau GwerthwchiGymru (Cyflenwyr) er mwyn cyhoeddi ei hysbysiadau is-gontract ei hun. Dyma'r camau i'w cymryd:

1. Mae'r contractwr llwyddiannus yn cysylltu â Gwerth Cymru (gweler isod am gyswllt) ac yn rhoi enw'r cleient y bydd yn gweithio iddo a'r cyfeirnod Gwerth Cymru sy'n perthyn i'r Hysbysiad Tendro gwreiddiol.
2. Bydd swyddog Gwerth Cymru'n trefnu y gall gael at borth GwerthwchiGymru.
3. Mae'r contractwr wedyn yn creu Hysbysiad Is-gontract drwy'r porth sy'n cynnwys amrywiaeth o feintiau busnes (nifer o gyfloegion) os targedir BBaChau, a/neu amrywiaeth o godau post neu Sir (os targedir busnesau mewn lleoliad penodol). Yn y man hwn mae dau ddewis:
   - bydd GwerthwchiGymru'n cylchredeg yr Hysbysiad i bob cwmni ar y gofrestr sy'n bodloni'r meini prawf; neu
   - gall y contractwr gael at gofrestr GwerthwchiGymru i nodi cyflenwyr posibl yr anfonir yr Hysbysiad atynt.

Cyswllt: Nick Owen, Rheolwr Prosiect yn cyfnewidcymru (rhan o Werth Cymru).
E-bost Nick.Owen@Wales.GSI.gov.Uk Ffôn. 01792 765837

3.3.6 Cronfeydd Data

Mae amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau e-gaffael ychwanegol i'r sector cyhoeddus ac weithiau'r sector preifat yn y DU.

Mae Constructionline yn rhestru mwy na 18000 o gyflenwyr sector adeiladu sydd wedi cyn-gymhwyso. Mae prynwyr a gwerthwyr yn talu ffi am gofrestru gyda'r safle. Mae cyfleoedd contract adeiladu a gofrestrir gyda GwerthwchiGymru yn cael eu postio'n awtomatig ar Constructionline.

3.4 Datblygu Cyflenwyr

3.4.1 Y Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr

Mae'r Rhaglen Datblygu Cyflenwyr a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'n helpu cwmnïau Cymru i allu cystadlu'n well am gontractau sector cyhoeddus. Mae'r Rhaglen yn ariannu neu'n cymorthdalu nifer o sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaeth hwn ar lefel leol.

Gall y gwaith gyda chwmnïau gynnwys cymorth i gofrestru gyda chronfeydd data cyflenwyr, cymorth i baratoi holiaduron cyn-gymhwyso, a chymorth un ac un wrth ddatblygu tendrau.

Os yw sefydliad prynu'n dymuno defnyddio dull cyfeillgar i BBaChau, mae'n bwysig iawn iddo ymgysylltu â'r Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr yn gynnar yn y broses gaffael er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl yn sgil defnyddio a datblygu BBaChau.

Gall gwaith gyda'r gadwyn gyflenwi fod yn gyffredinol - e.e. rhaglen i gael cynifer o gwmnïau lleol â phosibl 'wedi'u cofrestru' ac yn gallu cystadlu'n well am gontractau – neu wedi'i dargedu. Gellid pennu'r targedau yn ôl:

- gofynion contract sydd i ddod (e.e. am waith SATC), fel mai dim ond cwmnïau lleol fyddai'n cael eu cefnogi, a allai ddarparu gwaith, gwasanaethau neu gyflenwadau sydd eu hangen ar y rhaglen waith;
- cwmnïau perthnasol mewn ardal ddaearyddol sy'n agos at safle cyflenwi'r gwaith e.e. trefi a phentrefi lleol;
- mathau penodol o gwmni e.e. mentrau cymdeithasol neu gwmnïau a gynorthwyir.

3.4.2 Adeiladu Cymru

Partneriaeth yw Adeiladu Cymru rhwng Adran yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a Sgiliau Adeiladu Cymru. Yn ogystal â gweithio fel ymgynghorydd i gyrff cyhoeddus sy'n ceisio sicrhau mwy o gyfleoedd i gontractwyr lleol, mae'n gweithio gyda chwmnïau un ac un, fel rheol am bum diwrnod wedi'u gwasgaru dros chwe mis. Mae cwmpas y cymorth hwn yn seiliedig ar well Ansawdd, Cost, Cyflenwi (ACC) mewn amgylchedd gwaith mwy diogel (yn unol ag egwyddorion Egan a Latham), a chytunir arno â phob cleient, ond mae'n gallu cynnwys:

- Gwella cynhyrchiant, proses a chynllunio safle
- Strategaeth fusnes a'i gweithredu
- Deall mathau newydd o gontractio
- Sut i dendro
- Cymorth i baratoi Holiaduron Cyn-gymhwyso
- Costio ac amcangyfrif
- Monitro, casglu a dadansoddi data
- Cymorth iechyd a diogelwch
- Logisteg safle.

3.4.3 Ffurfio Consortiwm

Mewn llawer o ardaloedd, ni fydd cwmnïau sy'n ddigon mawr (wedi'u mesur o ran asedau ariannol, gwerth contractau a gyflawnir yn nodweddiadol, gallu rheoli, ac yswiriant) i gynnig am ddarn mawr o waith. Felly gall y cleient weithio gydag asiantaethau cefnogi i annog ffurfio consortiwm o gwmnïau bach sy'n gallu cynnig gyda'i gilydd am ddarnau mwy o waith.

Mae gwybodaeth gan landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru'n awgrymu bod cynigion consortiwm yn fwy tebygol o godi ar ôl nifer o flynyddoedd o gydweithio, er enghraifft drwy grŵp contractwyr a sefydlir wrth gyflenwi contractau partneru, na chodi o waith a wneir i baratoi at broses dendro.

Er mwyn ffurfio consortiwm llwyddiannus, mae angen

- *Cydlynydd pwrpasol i:*
  - *nodi cwmnïau a all gyflenwi ei gilydd*
  - *cefnogi perthynas waith i ddatblygu*
  - *helpu'r grŵp i weithio drwy gylch cynnig cymhleth*
  - *helpu i gael at adnoddau ac asiantaethau cymorth busnes*
  - *sicrhau bod perthynas ariannol briodol yn cael ei sefydlu*
  - *nodi marchandoedd newydd i'r consortiwm.*
- *Darparu'r ddogfennaeth gyfreithiol sydd ei hangen i ffurfio'r consortiwm.*

Nicola Anderson, Rheolwr Prosiect – Adeiladu, Ven Management Ltd.
Ffôn. 07912 274882 E-bost nicola@venmanagement.com

Mae arwyddion mwy cadarnhaol mewn perthynas ag ail-gontractio, os bu contractwyr yn cydweithio drwy grŵp cyflenwyr ers nifer o flynyddoedd. Gall hyn gynhyrchu'r ymddiriedaeth a'r ddealltwriaeth glir sydd eu hangen er mwyn cynnig ar y cyd.

Family Housing Association (Cymru) Ltd – Abertawe

Cyflawni Effeithlonrwydd drwy Bartneriaeth

Mae Family Housing Association yn Abertawe a'i 10 o gontractwyr fframwaith wedi gweithio gydag Adeiladu Cymru i gyflwyno systemau darbodus i waredu gwastraff ac olrhain perfformiad. Mae hyn wedi helpu i ryddhau mwy o arian i wella cartrefi. Mae'r gwaith partneriaeth hwn yn cynnwys grŵp llywio contractwyr, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r holl gontractwyr, y Gymdeithas, tenantiaid a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd gydag agenda sy'n seiliedig ar wella gwasanaethau adeiladu'n barhaus. Ar hyn o bryd, mae'r grŵp wrthi'n trafod ag Adeiladu Cymru i geisio cymorth pellach am nifer o gynigion gwella parhaus pellach sy'n cynnwys, er enghraifft: caffael deunyddiau ar y cyd, cynllun prentis a rennir, casglu data perfformiad gan gontractwyr.

Cyswllt: Darrin Davies, Pennaeth Gwasanaethau Eiddo. Family Housing Association (Cymru) Ltd.
Ffôn 01792 460192 E-bost darrin.dasvies@fha-wales.com